Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 44 – 4 MAI 2010

Ymddiheuriadau am fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers yr e-fwletin go iawn diwethaf ond mae wedi bod yn brysur iawn yma yn ddiweddar, yn enwedig felly gyda'n dathliadau pen-blwydd! Diolch o galon i bob un a wnaeth gefnogi'r penwythnos, naill ai trwy gymryd rhan, trwy gynorthwyo neu trwy fynychu. Roedd yn braf cael y Morlan yn fwrlwm o weithgareddau a phobl dros y tridiau.

Mae'r dathlu yn parhau gan fod arddangosfa ***Dathlu*** gan artistiaid Plas Lluest yma tan 16 Mai. Trwy eu dehongliadau unigol, ac o safbwyntiau gwahanol, mae'r artistiaid yn ein gwahodd i ystyried sut yr ydym yn dathlu a beth a ddefnyddiwn i ddathlu. Mae'r canlyniad yn gasgliad o waith celf diddorol a chyffrous, sy'n ystyried sut mae pobl yn defnyddio sain, bwyd, pethau a lleoliadau i ddathlu.

Mae gan y Morlan ddau ddigwyddiad ymlaen dros y bythefnos nesaf:

INTO MY OWN
2.30, dydd Iau, 13 Mai
Mae Cwmni Hijinx yn dychwelyd i'r Morlan gyda drama arall gan Glenys Evans. Mae Anne a'i mam yn byw gyda'i gilydd, ac yn edrych ar ôl ei gilydd. Mae eu bywyd yn gysurus ac yn saff, ond mae byd Anne yn chwalu pan gaiff ei mam ei rhuthro i'r ysbyty. Stori i bawb yw *Into my Own* – am deuluoedd a chyfeillgarwch, am gamu i'r tywyllwch – ond mae'n arbennig o berthnasol i bobl ag anawsterau dysgu. Tocynnau (ar werth o'r Morlan): £6 (£4 gostyngol). Trefnir gyda chymorth y cynllun Noson Allan.

EFENGYL YR ANGEL GOLLEDIG
7.00, nos Fercher, 19 Mai
Anerchiad gan y Parch. Geraint ap Iorwerth ar y testun uchod. Rhan o gyfres Dweud ei Ddweud y Morlan. Cadeirydd: Enid Morgan.

Nodir isod y digwyddiadau eraill sydd ymlaen yma dros y cyfnod hwn.

FFAIR LYFRAU
10.00-4.00, dydd Sadwrn, 8 Mai
Mynediad: £1.

NOSON GERDD
7.00, nos Sadwrn, 8 Mai
Noson Gerdd i godi arian at Ieuenctid Cymru i Lourdes, Aberystwyth. Eitemau cerddorol gan nifer o artistiaid lleol, gan gynnwys: pedwarawd llinynnol, deuawd piano, unawdwyr offerynnol – ffidil, piano a sacsoffon ... Lluniaeth ysgafn (te, coffi, bisgedi) a raffl. Dewch a mwynhewch. Mynediad am ddim, ond croesewir cyfraniadau.

GRŴP BWDHAETH
7.30-9.00, nos Fercher, 12 Mai
Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn y Morlan ar ail nos Fercher bob mis.

DIWRNOD NAKBA
7.00, nos Sadwrn, 15 Mai
Noson wedi'i threfnu gan gangen leol Ymgyrch Cefnogi Palesteina, gyda ffilm Benny Brunner Al-Nakba, Côr Gobaith, stondin a lluniaeth ysgafn. Mynediad am ddim ond derbynnir cyfraniadau i YCP Aberystwyth.

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 20 Mai
Trefnir gan CAVO ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli. Manylion pellach: 01570-423232.

SGWRS GAN NICOLA CRADDOCK: *"PRACTICAL ACTION"*
2.30, dydd Iau, 20 Mai
Cyfarfod misol Prifysgol y Drydedd Oes ar gyfer y rheiny sydd wedi rhoi'r gorau i weithio. Croeso i bawb.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr